Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru Model Lefel Ysgol ar gyfer yr SEF

Cam Un

Deall Cyy-destun yr Ysgol

Hunanwerthusiad a arweinir gan yr ysgol ar sail yr SEF, gan ddefnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes o broses hunanwerthuso'r ysgol a Fframwaith Cefnogi a Herio'r ALI

Heriau i'r Ysgol

Rhwystrau i Effeithiolrwydd i Awdurdodau Lleol, LICC ac eraill

Cam Dau

Deialog ar Hunanwerthuso'r Ysgol

Bydd yr ysgol, swyddog cyswllt yr ALI a hwylusydd gwella yn cael deialog ar yr SEF ac yn cytuno ar yr 'amodau Gwella' a ' Rhwystrau I Effeithiolrwydd

Ysgolion wedi'i dystyru

Positive Impact

Cam Tri

Cynllunio Gweithredol

Mae'r ysgol yn cyllunio ar gyfer gwella ac yn clystyru gydag ysgolion tebyg sydd wedi nodi'r un themau gwella

Cam Pedwar

Rhoi'r Cynllum Gweithredu ar Waith

Yr ysgol yn gweithio gyda'r clwstwr A gyda chefnogaeth yr hwylusydd, Ei gilydd ac ym arferwyr, gan dynnu ar y gefnigaeth sydd ar Gael yn Lloel, yn Rhanbarthol ac yn Genedlaethol

Cam Pump

Adolygu

Mae'r Ysgol, gyda swyddog cyswllt yr ALI a'r hwylusydd gwella, yn adolygu cynnydd ac yn cynllunio ar gyfer gweiliant cynaliadwy

.... ac mae gwelliant cael ei gynnal

Heriau Gwahanol

Y Rhaglen Beilot

Rhagarweiniad

Yn rhan o'r ymgyrch gyffredinol i wella ysgolion yng Nghymru, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Bu angen gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, partneriaid yr awdurdod lleol, penaethiaid, academyddion ac amrywiaeth o randdeiliaid cenedlaethol wrth ddatblygu'r fframwaith hwn.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FFEY) yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer gwella canlyniadau dysgu a lles plant a phobl ifanc Cymru. Mae prif syniadau'r FFEY yn y diagram isod. Mae'n cynnwys pump o "themâu" yn y cylch allanol a chwe "elfen" yn segmentau'r cylch, y mae pob un wedi'u rhannu ymhellach i dair o bedair "agwedd".



Ymagwedd y Consortiwm

Trwy waith consortiwm rydym wedi datblygu model a fydd yn adeiladu ar waith cyfredol ysgolion ac awdurdodau lleol ac ar fentrau cyfredol y Cynulliad a fydd yn addas ar gyfer cyd-destun ac amgylchiadau pob ysgol ar draws y Consortiwm. Egwyddor allweddol yw bydd y model yn un datblygiadol i geisio cefnogi'r daith unigol y mae pob ysgol yn ei dilyn i fod yn fwy effeithiol i ychwanegu gwerth at ddysg pob disgybl yn yr ysgol. Dylai fod yn fodel sy'n helpu ysgolion da i wella drwy ddatblygu a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sydd ar gael i'r ysgol - yn yr ysgol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Bydd yn datblygu arfer da sy'n bodoli eisoes o fewn awdurdodau ac ysgolion unigol drwy gefnogaeth a heriau effeithiol. Bydd yn cofleidio datblygiadau paralel megis ysgolion yn eu cymunedau, Cytundebau Partneriaeth AALl/Ysgolion a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Os mai caniatáu i ysgolion gyflawni gwell effeithiolrwydd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau yw'r model, dylai ganolbwyntio ar y nodweddion a'r gwerthoedd dyfnach, gan gynnwys codi dyheadau cymuned yr ysgol gyfan.

Y Rhaglen Beilot

Cynhelir y Rhaglen Beilot ar gyfer y model lefel ysgol o'r fframwaith effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2008-9. Mae gan yr ymagwedd a ddatblygwyd gan Gonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru bum cam penodol fel a ganlyn:

Cyfnod Un	Deall Cyd-destun yr Ysgol
Cyfnod Dau	Cytuno ar Themâu ar gyfer Gwella a Rhwystrau i Effeithiolrwydd
Cyfnod Tri	Cynllunio Camau Gweithredu
Cyfnod Pedwar	Gweithredu
Cyfnod Pump	Adolygu a Chynllunio ar gyfer Cynaladwyedd

Cyfnod Un: Deall Cyd-destun yr Ysgol

Dyma broses a arweinir gan yr ysgol sy'n defnyddio tystiolaeth bresennol o brosesau hunanwerthuso ysgolion a Chefnogaeth Awdurdod Lleol a Fframweithiau Herio. Mae'r systemau hunanwerthuso cyfredol hyn yn darparu llawer o dystiolaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ystyriaeth y themâu craidd ac elfennau allweddol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r fframwaith newydd wedi'i gynllunio i edrych yn fanwl ar fywyd a gwaith yr ysgol a chanolbwyntio ar y systemau a'r gwerthoedd allweddol hynny sy'n ganolog i wella ysgolion yn gyson.

Mae gofyn i ysgolion cynnal proses adolygu ar y cyd a fydd yn eu galluogi i ystyried y dystiolaeth bresennol yn erbyn meini prawf hunanwerthuso yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae hyn yn canolbwyntio ar chwe elfen allweddol effeithiolrwydd ysgolion, sef:

- Arweinyddiaeth
- Y Cwricwlwm ac addysgu
- Gweithio gydag eraill
- Rhwydweithiau arfer proffesiynol
- Ymyrraeth a chefnogaeth
- Gwelliant ac atebolrwydd

Ysgolion sy'n gyfrifol am reoli cyfnod cyntaf y broses, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol a'u systemau parhaus ar gyfer hunanwerthuso ac adolygu. Anogir ysgolion, fodd bynnag, i sicrhau bod eu proses adolygu yn adlewyrchu arfer gorau a nodwyd gan Estyn o ran arwain a rheoli hunanwerthuso.

Gall y defnydd o fframwaith effeithiolrwydd ysgolion ddarparu rhai ysgolion â'r cyfle cyntaf i adolygu eu gwaith presennol yn ffurfiol yn erbyn rhai o'r meini prawf ac i fyfyrio ar rai meysydd yr hoffent wella arnynt. Bydd ysgolion am ystyried sut yr hoffent reoli eu proses adolygu ar y cyd, o ran pwy i'w gynnwys, sut i gasglu tystiolaeth berthnasol ynghyd, sut i adolygu pob un o'r chwe elfen yn eu tro a sut i nodi eu hystyriaethau a chrynhoi'r canlyniadau.

Dylid nodi bod llawer o'r meini prawf yn y fframwaith yn ansoddol; maent yn cynnwys gwneud dyfarniadau gwybodus am nodweddion yr ysgol. Ymddengys y gellir ond gwerthuso ysgolion yn effeithiol yn erbyn y fframwaith os yw'r rhanddeiliaid sy'n darparu adborth ar eu canfyddiadau am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd yn chwarae rhan flaenllaw.

Nodwedd allweddol y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yw'r gydnabyddiaeth bod meysydd lle bydd yr ysgol yn rhannu cyfrifoldeb gydag asiantaethau a sefydliadau eraill er mwyn darparu ar gyfer dysgu a lles plant a phobl ifanc. Anogir ysgolion, felly, i ystyried sut gallant gynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn yn eu proses adolygu.

Mae'r cyfnod hwn hefyd yn nodi dechrau datblygu perthynas yr ysgol gyda hwylusydd gwella. Bydd pob hwylusydd yn gweithio gyda rhwydwaith o ysgolion i arwain a chefnogi ysgolion unigol wrth iddynt weithio ar elfennau dewisol yr FFEY. Yn ystod y cyfnod hwn bydd yr hwylusydd gwella yn cynnal ymweliad cyflwyniadol i'r ysgol, dadansoddi data perfformiad a thystiolaeth ddogfennol a ddarperir gan yr ysgol, a chefnogi'r ysgol drwy'r broses hunanwerthuso os oes angen. Bydd yr hwylusydd gwella hefyd yn cysylltu ag ymgynghorydd cyswllt yr ysgol â'r awdurdod lleol. Daw'r cyfnod i ben pan fydd yr ysgol yn cyflwyno 'Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion' (PEY) a gwblhawyd.

Graddfa Amser:
Yn y rhaglen beilot, bydd ysgolion yn dechrau'r broses hunanwerthuso ym mis Medi 2008 ac yn cwblhau'r hunanwerthusiad erbyn diwedd mis Hydref.

Cyfnod Dau: Cytuno ar Themâu ar gyfer Gwella a Rhwystrau i Effeithiolrwydd

Cyfnod nesaf yn y gylchred yw i'r ysgol gael deialog gyda swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a hwylusydd gwella ar yr hunanwerthusiad a chytuno ar y 'Themâu ar gyfer Gwella', 'Cryfderau Allweddol' a 'Rhwystrau i Effeithiolrwydd'.

Mae hwn yn gyfle i'r ysgol i gyflwyno'i chanfyddiadau hunanwerthuso a chynigion gwella i'r hwylusydd gwella. Bydd y drafodaeth yn seiliedig ar archwiliad canlyniadau ysgrifenedig cynt o'r 'Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion' (PEY) a thystiolaeth gefnogol berthnasol.

Dyma egwyddorion arweiniol ar gyfer y drafodaeth:

- Proses ddatblygiadol ac adeiladol, sy'n seiliedig ar ddeialog broffesiynol;
- Canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddysgu a lles disgyblion, a'r ffactorau cymhleth sy'n dylanwadu ar hyn;
- Yn wybodus gan dystiolaeth feintiol ac ansoddol sy'n ymwneud ag elfennau allweddol y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion;
- Yn seiliedig ar barch tuag at gyflawniadau'r ysgol a'i hawl i bennu cyfarwyddiadau priodol ar gyfer gwella ysgolion

Bydd yr hwylusydd gwella yn cynnal ymweliad pellach â'r ysgol i drafod y 'Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion' (PEY). Gall ymgynghorydd cyswllt yr ysgol hefyd gymryd rhan yn yr ymweliad, yn unol â chytundeb yr ysgol. Yn ystod yr ymweliad, byddant yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr ysgol, gwirio hyn drwy gyfres o 'sgyrsiau strategol' gyda rhanddeiliaid allweddol, a chynnal trafodaeth gydag arweinwyr ysgol am chwe elfen y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Bydd hyn yn arwain at nodi a chytuno themâu allweddol ar gyfer gwella.

Bydd y themâu allweddol hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau i'w datblygu ar draws yr ysgol, ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd fwyaf tebygol o arwain at ddatblygiad cyson yn ei pherfformiad. Bydd pob ysgol yn cytuno ar nifer bach o themâu allweddol ar gyfer gwella sy'n seiliedig yn uniongyrchol ar y chwe elfen yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Rhagwelir y

bydd pob ysgol yn nodi'r themâu sy'n torri ar draws o leiaf dwy elfen allweddol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Bydd y themâu hyn yn ymwneud yn bennaf ag 'adeiladu gallu', hynny yw, byddant yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau, rhwydweithiau a diwylliannau newydd a fydd yn galluogi i'r ysgol ddod yn fwy effeithiol dros amser. Bydd y themâu hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â chanlyniadau dymunol o ran cyflawniad a lles disgyblion. Mynegir themâu ar gyfer gwella fel cyfres o amcanion, a chytunir ar eiriad y rhain yn ystod y drafodaeth.

Bydd trafodaeth hefyd ar gryfderau allweddol y mae'r ysgol wedi'u nodi drwy'r broses hunanwerthuso. Rhan o'r dull sy'n cael ei arbrofi yw rhoi cyngor a chefnogaeth gan ysgolion sydd gydag arfer effeithiol a brofwyd mewn maes penodol. Bydd pob ysgol yn gweithio fel rhan o rwydwaith i ddarparu cefnogaeth a her gan gyfoedion, gan rannu arbenigedd ar y cryfderau allweddol y maent wedi'u nodi. Yn ystod y peilot, bydd y consortiwm yn casglu cofrestr o gryfderau allweddol ysgolion a nodir, fel y gall ysgolion eraill gysylltu â hwy am gyngor a chefnogaeth yn y meysydd arbenigol hyn.

Yn ystod y drafodaeth, bydd yr hwylusydd gwella hefyd yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i adolygu'r rhwystrau i effeithiolrwydd y mae'r ysgol yn wynebu. Mae nodi'r rhwystrau effeithiolrwydd yn ymwneud â rhwystrau mewnol yr ysgol a'r materion y tu hwnt i'r ysgol y mae'n bosib y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn lleol. Mae hon yn thema bwysig yn y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, ac yn canolbwyntio ar y systemau y tu hwnt i'r ysgol y gallant ymddwyn fel rhwystrau i newidiadau. Mae'r fframwaith yn cydnabod lefelau'r gweithredu cyd-ddibynnol ar lefel ysgol, lleol a chenedlaethol, y mae'n bosib y bydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau a chynnal gwelliant i blant a phobl ifanc.

Mae nodi rhwystrau i newidiadau yn y bôn yn rhoi agenda i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o faterion y creda ysgolion a phenaethiaid eu bod yn bwysig. Gall hyn arwain at drafodaeth, ymgynghori a gweithredu pellach i ddiddymu rhwystrau, sicrhau gwelliant neu ddatblygu trefniadau newydd ar lefel Awdurdod Lleol. Mewn rhai achosion, gall datrys rhwystrau i newid a ganfu ymwneud â chynrychiolaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru, i awgrymu diwygiadau polisi neu feysydd gweithredu gallai arwain at welliannau drwy'r system. Bydd angen gweithdrfnau ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn ystyried 'rhwystrau i effeithiolrwydd', sy'n ganolog yn cynnwys penaethiaid mewn prosesau ymgynghori ynghylch newidiadau posib.

Erbyn diwedd y drafodaeth, bydd cyfranogwyr wedi cytuno ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu, a mynegi'r rhain mewn cyfres o amcanion; bydd rhaid iddynt hefyd nodi rhwystrau i newid canfyddedig ar gyfer ystyriaeth leol.

Graddfa Amser:
Yn y cyfnod peilot, cynhelir y cyfnod deialog ddiwedd mis Hydref.

Cyfnod Tri: Cynllunio Camau Gweithredu

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn pwysleisio'n gryf y dylai ysgolion weithio gyda'i gilydd mewn rhwydwaith o ysgolion i gefnogi datblygu ar y cyd. Cysylltir hyn yn uniongyrchol â'r cysyniad o 'adeiladu system' a'r angen i hyrwyddo rhwydweithiau a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi arfer da a rhannu hyn ar draws ysgolion. Unwaith y blaenoriaethir a chytunir ar 'Themâu ar gyfer Gwella' gan bob ysgol, crëir rhwydweithiau o grwpiau bach o ysgolion.

Bydd cyfansoddiad y rhwydwaith yn hyblyg: efallai y byddant yn cynnwys ysgolion gyda themâu tebyg ar gyfer gwella, efallai y byddant yn cynnwys ysgolion maint tebyg megis ysgolion cynradd bach neu efallai bod teuluoedd o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd ar yr hunanwerthusiad ac yn ffurfio rhwydwaith 'hunan-ddewisiol'. Gwerthusir effaith gweithio trwy'r rhwydweithiau hyn yn y peilot i hysbysu datblygiad pellach y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Cefnogir pob rhwydwaith gan hwylusydd gwella a fydd yn gweithio gyda phob ysgol yn gyntaf, ac yna ar draws y rhwydwaith, i greu cynlluniau gweithredu ar y themâu a gytunir. Rôl yr hwylusydd gwella yw cefnogi'r ysgolion wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu, cefnogi'r broses o newid a hwyluso'r rhwydwaith proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys cael cefnogaeth gan ymarferwyr eraill, yr awdurdod lleol, consortiwm a LICC fel sy'n briodol.

Cam cyntaf y broses hon yw i hwylusydd gwella weithio gydag arweinwyr ym mhob ysgol i lunio cynllun gweithredu sy'n cynnwys: yr amcanion allweddol ar gyfer datblygu, y camau gweithredu er mwyn cyflawni pob amcan, y graddfeydd amser a cherrig milltir ar gyfer gweithredoedd datblygu, rolau a chyfrifoldebau allweddol, adnoddau sy'n angenrheidiol, a threfniadau ar gyfer monitro a gwerthuso.

Ail gam y broses yw cynnwys rhwydweithiau'r ysgol mewn deialog i fireinio'r cynlluniau gweithredu drafft hyn a FfEYydlu ffordd o weithio ar y cyd i roi her a chefnogaeth gan gyfoedion wrth ddiogelu amcanion pob ysgol. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, bydd gofyn i bob ysgol nodi:

- Y meysydd allweddol lle byddent yn elwa ar her a chefnogaeth gan ysgol (neu ysgolion) arall (eraill);
- Y meysydd allweddol lle byddent yn teimlo y gallent herio a chefnogi ysgolion eraill, ar sail arfer da cyfredol yn eu hysgol eu hunain;
- Ym mha ffyrdd yr hoffent weithio ar y cyd gydag ysgolion eraill.

Trefnir cyfarfod gan yr Hwylusydd Gwella sy'n cynnwys arweinwyr o bob un o'r ysgolion yn y rhwydwaith i rannu cynlluniau gweithredu drafft a chytuno ar drefniadau gweithio ar y cyd. Bydd pob rhwydwaith o ysgolion hefyd yn derbyn adnoddau dirprwyedig (tua £5,000) i gefnogi eu gweithgareddau datblygu ac mae angen cytuno ar gynllun gwario, yn seiliedig ar feysydd gwariant cymwys.

Graddfa Amser
Yn y cyfnod peilot, cwblheir y Cynlluniau Gweithredu yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2008.

Cyfnod Pedwar: Gweithrediad

Bydd ysgolion wedyn yn gweithio gydag eraill yn eu rhwydwaith a chyda chefnogaeth yr hwylusydd gwella i roi eu cynlluniau gweithredu ar waith. Wrth wneud hyn, byddant yn galw ar ffynonellau eraill o gefnogaeth sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Elfen allweddol y cyfnod hwn yw galluogi'r ysgol i gyflawni newid effeithiol a fydd yn cyfrannu tuag at wella safonau'r holl ddisgyblion. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr hwylusydd gwella yn gweithio gydag ysgolion ar sail un-i-un a chyda'r rhwydwaith fel grŵp. Bydd rôl yr hwylusydd gwella yn cynnwys ymddwyn fel hyfforddwr i'r pennaeth ac fel ffrind beirniadol wrth gefnogi'r gymuned ysgol gyfan i gyflawni'r newid arfaethedig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'n benodol datblygiad cymunedau dysgu proffesiynol (CDP) mewn ysgolion unigol ac ar draws y rhwydweithiau o ysgolion fel galluogwr newid allweddol; oherwydd hyn, bydd cefnogi datblygiad y CDP yn elfen bwysig o rôl yr Hwylusydd Gwella.

Yn ystod Cyfnod Pedwar, bydd yr hwylusydd gwella yn cynnal adolygiad gyda'r pennaeth ac eraill i adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a gytunwyd.

Amserlen
Yn y cyfnod peilot, bydd y Cyfnod Gweithredu o fis Ionawr 2009 i fis Mehefin 2009.

Cyfnod Pump: Adolygu a chynllunio ar gyfer cynaladwyedd

Yn ystod y cam olaf, bydd yr hwylusydd gwella yn gweithio gyda'r ysgol i helpu i baratoi adroddiad adolygol ar y datblygiad a wnaed drwy'r peilot. Agwedd allweddol y gwaith hwn fydd cwblhau'r 'Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion' dro ar ôl tro, sy'n galluogi'r ysgol i arddangos y datblygiad a wnaed drwy'r peilot.

Bydd yr ymgynghorydd cyswllt a'r hwylusydd gwella yn ymweld â'r ysgol am y tro olaf. Yn ystod yr ymweliad, byddant yn adolygu'r dystiolaeth a chyflawniadau'r ysgol a bydd yr Hwylusydd Gwella yn arwain adolygiad terfynol o gynhwysiad yr ysgol yn y peilot. Bwriad yr adolygiad yw darparu fforwm a fydd yn galluogi'r ysgol a'r HG i edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd trwy'r rhaglen a nodi gwersi a ddysgwyd a allai ddatblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ymhellach.

Bydd yr adolygiad yn cynnwys canolbwyntio ar waith rhwydwaith yr ysgolion a datblygiad y cymunedau dysgu proffesiynol. Ceir adborth ar arfer effeithiol a nodir yn yr adolygiad yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel y gall ffurfio rhan o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer y cylchred nesaf ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth.

Amserlen
Yn y cyfnod peilot, cynhelir yr Adolygiad Terfynol ym mis Gorffennaf 2009 erbyn diwedd tymor yr haf.